



HEDDWCH

Rhifyn 79 > Mis Rhagfyr 2021 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear



NA i ryfel oer newydd

Mae'n rhybudd coch ar yr hinsawdd. Mae pandemig wedi lladd miliynau. Mae pobl yn ddigartref, yn ddi-wladwriaeth, yn newynog ac ar grwydr. Ai dyma yn wir yr adeg i fod yn arbrofi â thaflegrau hypersonig a defnyddio rhethreg ymfflamychol i greu Ail Ryfel Oer?

ANGEN GWELEDIGAETH NEWYDD, YN AWR

Wrth fynd i'r wasg, mae Tsieina yn destun Rhyfel Oer geiriol newydd, mae Afghanistan yn llwgu, mae tyndra yn Nwyrain Ewrop. Yn yr awyrgylch bregus yma, roedd hyd yn oed cydweithrediad prin UDA a Tsieina yn COP26 i'w groesawu. Ond dylai diplomyddiaeth egniol fod yn rheol, nid yn eithriad, ym mhob man. Mae gwaharddiad byd-eang ar arfau niwclear yn angenrheidiol, cyn i gysylltiadau rhyngwladol ymddatod ymhellach.

Yn y rhifyn hwn o *Heddwch*, fe edrychwn ar statws cyfredol y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW, t3) a ffaeledau lu y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY, t4). Dyma'r UD wedyn yn sleifio'i ffordd allan o Afghanistan ac yn troi ei hwyneb unwaith eto at ranbarth Y Môr Tawel. Mae'r DU ac Awstralia'n dilyn hefyd, mewn cytundeb milwrol newydd o'r enw AUKUS (t5).

COP 26 a wedyn

Mae COP 26 yn gam bach ymlaen, ond fel ymateb i argyfwng yr hinsawdd mae'n hynod ddiffygiol. Wrth i gynhadledd COP26 fynd rhagddi yn Glasgow, cynhaliwyd protestiadau hinsawdd ledled Cymru (gwel t8 a 10). Mae'r ymdrechion i wirddgalchu pŵer niwclear newydd fel ateb i'r hinsawdd a chuddio'r cysylltiadau milwrol yn fwy amlwg byth. Trafodir datblygiadau niwclear sifil hefyd [tt9-10].



Ysgrifennydd cenedlaethol CND Cymru, Bethan Siân, yn siarad ar risiau'r Senedd am fygythiad deublyg arfau niwclear a newid yn yr hinsawdd

Covid ledled y byd

Mae'r pandemig Coronafeirws yn dal i effeithio ar bob agwedd o'n bywydau, a'n hathrawon, ein gofalgwyr a'n nyrsys yn dal i frwydro am gyllid. Does dim gobaith am ddatrysiad cyfiawn hyd oni fydd pob gwlad yn y byd, cyfoethog a thlawd, â gallu cydradd i sicrhau brechlynnau.

Menywod Greenham ym mhobman

Mae adfywiad hen ysbryd Greenham i'w groesawu'n gynnes. Ar t6 mae Sue Lent yn adrodd ar ail-lwyfannu taith gerdded hanesyddol 1981 o Gaerdydd i Greenham, ac mae adolygiad Jill Gough [t12] yn dwyn i gof faneri bendigedig Menywod Greenham. Mae Mary Jones [t7] yn cynllunio ar gyfer dathlu datganiad y Gymru Ddi-niwclear ym 1982.

Apêl profion niwclear

Mae LABRATS yn llunio cofrestr ryngwladol o 'ddisgynyddion atomig' a fydd yn darparu

gwybodaeth ystadegol ar gyfer ymgyrchu, ac yn dangos i lywodraethau bod y rhaglen brofi yn dal i effeithio ar fwy na miliwn o ddisgynyddion ledled y byd. Bydd cofnodion yn y gronfa ddata yn parhau'n gyfrinachol. I gofrestru, ewch i <https://www.labrats.international/irad>

Awdurdodau Lleol Di-niwclear

Diolch yn fawr i Sean Morris, Ysgrifennydd yr NFLA a chefnogwr cadarn mudiadau gwrth-niwclear Cymru. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd fel Arweinydd Polisi a Strategaeth Asiantaeth Newid Hinsawdd Manceinion, a chroesawu ei olynydd, Richard Outram, cynghorydd o Oldham sydd wedi ymgyrchu gyda CND.

PHILIP STEELE

• *Erratum: ymddiheurwn am wall teipio ar d9 yn Heddwch rhif 78. Yn erthygl Dr Ian Fairlie ar ymasiad niwclear, dylai '1018 becquerel' fod wedi ymddangos fel '10¹⁸ becquerel'.*

GWAHARDDIAD BYD-EANG YN ENNILL TIR

Mae Chile ac Ynysoedd Seychelle wedi cadarnhau'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW) ers rhifyn diwethaf Heddwch, gan ddod â'r nifer sydd wedi cadarnhau'r cytundeb i gyfanswm o 56 o wledydd. Ac mae'r byd ariannol yn dechrau cymryd sylw, meddai BRIAN JONES.

Gobeithiwn weld mwy yn cadarnhau cyn hir, gan i sawl gwladwriaeth, yn cynnwys Guatemala, Ghana, Tanzania, Peru, Mongolia, a Timor-Leste, gyhoeddi yn y Cenhedloedd Unedig eu bod wrthi'n gweithio i gadarnhau'r cytundeb. Maen nhw, a 27 o wledydd eraill, yn ceisio cwblhau eu prosesau cadarnhau er mwyn cymryd rhan yn y "Cyfarfod o Wledydd Cyfranogol" i'r TPNW cyntaf, a gynhelir ar y 22-24 Mawrth 2022 yn Fienna, Awstria.

Dim mwy o dactegau bwllo

Yn ystod misoedd olaf yr Arlywydd Trump yn ei swydd, cyfarwyddodd lysgenhadon yr UD i ddarbwyllo gwledydd i beidio â llofnodi neu gadarnhau'r TPNW, gan awgrymu y gallent golli cymorth yr UD a contractau pe cefnogent y

cytundeb. Er bod yr UD – fel yr holl wladwriaethau ag arfau niwclear a'u cynghreiriaid – yn dal i wrthwynebu'r cytundeb, diddymodd yr Arlywydd Biden bolisi Trump yn swyddogol, gan ddweud y dylai'r gwledydd eu hunain benderfynu os am ymuno â'r cytundeb ai peidio.

Arwydd cadarnhaol arall o symudiad tuag at y TPNW yw cyhoeddiad dau aelod o NATO, Norwy ac yr Almaen, y byddant yn mynychu Cyfarfod y Gwledydd Cyfranogol fel arsylwyr. Y gobaith yw y gallai'r penderfyniad hwn beri i rai o lywodraethau eraill NATO ystyried mynychu hefyd. Mae Cyngor Undebau Llafur Awstralia (ACTU) wedi cefnogi'r TPNW yn ffurfiol 'oherwydd bod heddwch yn fusnes undeb!' Noder hynny, TUC Cymru.

Buddsoddiad niwclear

Mae Länsförsäkringar, grŵp yswiriant o Sweden sydd â dros \$40 biliwn mewn asedau, a thri sefydliad ariannol mawr o Wlad Belg – KBC Bank, VDK Bank a De Groef Petercam Asset Management – wedi crybwyll y TPNW fel y rheswm dros fabwysiadu polisi newydd o roi'r gorau i fuddsoddi mewn cwmnïau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu arfau niwclear, wedi i'r CU fabwysiadu'r TPNW ym mis Ionawr 2021. Mae hwn yn gam arbennig o bwysig gan nad yw Sweden na Gwlad Belg yn rhan o'r TPNW: yn wir, mae Gwlad Belg wedi lleoli arfau niwclear UDA ym maes awyr milwrol Kleine Brogel. Serch hynny, mae'r sector ariannol yn cymryd sylw o'r cytundeb. Mae gwaith rhyngwladol i atal cyllido arfau dinistr torfol yn dechrau talu ffordd, ac mae disgwyl i fwy o sefydliadau ariannol ddilyn. Rhestrir y cwmnïau sy'n elwa o gynnal ras arfau niwclear yn adroddiad damniol ICAN yn 2021: Don't Bank on the Bomb! https://www.icanw.org/perilous_profiteering_companies_building_nuclear_weapons_and_financial_backers?

Mae Merthyr Tudful wedi bod yr ail gyngor sir yng Nghymru i basio cynnig i gefnogi'r TPNW, fel rhan o Apêl Dinasoedd ICAN



CND Cymru yn galw am waharddiad byd-eang ym mhrotest COP26 Caerdydd, 6 Tachwedd 2021 – Jill Evans, Felix Parker-Price a Nick Yeo

CYTUNDEB ATAL YMLEDIAD AR CHWÂL

Dywedir yn aml y daw pethau da i'r rhai sy'n aros. Os yw hyn yn wir, bydd 10fed Cynhadledd Adolygu (RevCon) y Cytundeb Atal Ymlediad (CAY), a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer Ebrill 2020 ac sydd bellach wedi'i ohirio am y trydydd tro tan fis Ionawr 2022, yn llwyddiant damheul!

Ysyaeth, mae'r rhagolygon go iawn yn llai calonogol fel y dengys cipolwg ar weithredoedd y gwledydd arfau niwclear.

Safonau dwbl

Gan ddechrau'n agos adre, achosodd penderfyniad y DU i gynyddu ei stoc o ergydion niwclear o fwy na 40 y cant yn gynharach eleni ofid mawr ac erydu ymhellach urhyw hyder yng ngallu'r DU i gadw'i hymrwymiaidau rhyngwladol. Yn yr un modd, datgelodd delweddau lloeren ddau faes newydd o seilos taflegrau niwclear yn cael eu hadeiladu yn nhaleithiau gogledd-orllewinol Tsieina, cynnydd o ddengwaith yn nifer ei seilos. Mae gan y ddwy wlad bolisi hirsefydlog o 'fraw-ataliaeth leiafswm'; os oedd hyn yn wir yn y lle cyntaf, mae rheswm yn mynnu na all fod bellach.

Mae'r ddau bŵer niwclear mwyaf, yr UD a Rwsia, yn parhau â'u rhaglenni moderneiddio, gwerth \$1.5 triliwn yn achos America. Mae'n anos dod o hyd i ffigurau ar wariant milwrol Rwsia, ond fel rheol dydy Taflegrau Balistig Rhyng-gyfandir [ICBMs] ddim yn dod yn rhad. Mae'n anodd cysoni'r un o'r camau hyn ag ymrwymiad y CAY i

'fynd ati i negydu'n ddidwyl ar fesurau effeithiol yn ymwneud â rhoi'r gorau i'r ras arfau niwclear yn fuan iawn ac â diarfogi niwclear'.

Ar stop yn y Dwyrain Canol

A dyna'r Dwyrain Canol wedyn. Yr anghytuno wedi cynnig yr Aifft y dylid creu parth yn rhydd o arfau dinistr torfol (ADT) oedd yr hoelen derfynol yn arch y RevCon diwethaf yn 2015. Yr eliffant yn y stafell o hyd yw Israel sydd, fel India, Pakistan a Gogledd Korea, heb fod yn rhan o'r CAY. A hithau heb gelu ei hymdrechion i ddifetha'r cytundeb niwclear ag Iran, mae Israel yn rhwystr cyson i ddarfogi, gan wrthod ymgysylltu y mater.

Gobeithion ac ofnau

Ac eto, mae yma obaith. Yn

Fumio Kishida, sy'n cynrychioli etholaeth yn Hiroshima, mae gan Japan Brif Weinidog newydd sydd â mwy o gydymdeimlad â diarfogi niwclear na'i ragflaenwyr diweddar. Fodd bynnag, nod Kishida yw dyblu gwariant milwrol a chefnogi ynni niwclear. Yn y cyfamser, mae'r TPNW yn parhau i hel cefnogaeth a bydd yn cynnal ei Gyfarfod Gwledydd Cyfranogol cyntaf yn y Flwyddyn Newydd. Ond yn y pen draw, rhaid wrth newid oddi uchod. Dyw hi ddim yn rhy hwyr i achub cytundeb ystyrion, ond mae angen newid meddylfryd ar fyrder, a bydd yn rhaid i un o'r gwledydd mawr gymryd yr awenau. Fel arall, rhagrith fydd yr unig enillydd pan ddaw'r RevCon i Efrog Newydd o'r diwedd.

THOMAS PITT



Y gwledydd ag arfau niwclear sydd o fewn y CAY yw UDA, Tsieina, Rwsia, y DU a Ffrainc. Y rhai y tu allan i'r CAU yw India, Pakistan, Israel a Gogledd Korea.

TREFN NEWYDD – NEU DDIM OND MWY O ANHREFN?

Mae ailgyfeirio strategaeth yr UD a'r DU o'r Dwyrain Canol tuag at yr Indo-Fôr Tawel i fod i sicrhau byd newydd dewr. Mae PHILIP STEELE yn ofni bod Rhyfel Oer newydd hwn ond un drychineb arall yn aros i ddigwydd.

Gwastraffwyd 'difidend heddwch' y Rhyfel Oer diwethaf ar y 'Rhyfel ar Derfysgaeth' bondigrybwyll. Difwynodd y mileniwm newydd a hau dannedd draig yn ei sgil. Ac eto, bellach mae sôn am Ail Ryfel Oer.

Ffarwel Kabul....

Doedd dim cyfiawnhad dros ymosodiad yr UD ar Afghanistan yn 2001. Lladdwyd sifiliaid dieuog, cafodd carcharorion eu camdrin, a thrawsgludwyd llawer i Guantánamo. Peryglwyd datblygiadau y brwydrwyd yn galed amdanynt o ran hawliau dynol, addysg a rôl menywod gan lygredd enfawr a ffafriaeth elitaidd. Datgelwyd sylfeini bas llywodraeth Afghanistan pan syrthiodd ar unwaith ym mis Awst 2021. Roedd yr UD yn iawn i dynnu allan ond roedd y gwrthgiliad di-drefn a threisgar yn anfaddeuol. Roedd araith Joe Biden wrth i'r UD ymadael yn hynod yn ei diffyg empathi a gwledigaeth.

Tsieina ac AUKUS

Roedd gwyriad sydyn Biden tuag at geo-wleidyddiaeth Indo-Fôr Tawel yn gam Trumpaidd bron. Mae ei rethreg ymosodol yn atgof diflas o feddylfryd Rhyfel Oer ac mae'n cynyddu tensiwn byd-eang sydd â dimensiwn niwclear. Mae'n amlwg mai Tsieina yw targed (dienw) cytundeb AUKUS mis Medi 2021. Mae'r



gyngrhair eingl-sacsonaidd glyd hon yn cynnwys UDA, y DU ac Awstralia. Mae Awstralia yn ennill llongau tanfor niwclear. Mae hyn yn codi pryderon cyfreithiol difrifol ynghylch y Cytundeb Atal Ymlediad niwclear (CAY). At hynny, roedd y ddêl yn torri cytundeb masnachol oedd yn bod eisoes rhwng Awstralia a Ffrainc, gan achosi rhwyg dybryd rhwng dau o gynghreiriaid agos yr UD.

Paham y sŵn a'r cynddaredd?

Oes a wnelo hyn i gyd â ph'r un ai Tweedle-Dum neu Tweedle-Dee sydd ben yn economi'r byd? Neu â gwleidyddiaeth fewnol yr UD, ceisio denu pleidleiswyr Trump trwy adleisio sinoffobia'r cyn-lywydd? Ai hebogiaid fel yr Ysgrifennydd Gwladol Anthony Blinken sy'n corddi'r dyfroedd? Neu'r lobi filwrol-ddiwydiannol sy'n ceisio marchnadoedd newydd a mwy o rym i'r Pentagon? Neu'r holl bethau hyn?

Beth bynnag ddigwyddodd i détente?

Cred rhai sylwebyddion y bydd Biden yn y pen draw yn ceisio datrysiaid diplomyddol tawel. Mae newid cyfeiriad rhyfeddol yr UD a Tsieina yn COP 26 yn argoeli'n dda. Y drafferth yw bod blwch Pandora o Ryfel Oer a ras arfau newydd bellach wedi'i ailagor, ar adeg beryglus.

Mae hawliau dynol yn cael eu hanwybyddu ledled y byd, gan gyfeillion yn ogystal â gelynyon. Fodd bynnag, y cwbl a wna bygythiadau swmllyd yw atgyfnerthu pŵer elfennau anflaengar yma ac mewn gwledydd tramor. Détente yw'r unig ateb.

heddweithredu:

gofynnwch i'ch AS San Steffan i arwyddo'r cynnig EDM 493, yn gwrthwnebu cytundeb AUKUS <https://cnd.eaction.org.uk/EDM493>

NÔL I GREENHAM

*Gorymdaith 1981 o Gaerdydd i faes awyr Greenham oedd catalydd y brotest epig a Gwersyll Heddwch y Menywod. Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, mae'r Cynghorydd o Gaerdydd **SUE LENT** ar y ffordd eto.*

Yn blentyn ifanc, aeth Rebecca Morden i Greenham gyda'i mam, ac mae hi'n cofio'r weithred "Embrace the base" ym mis Rhagfyr 1982 pan ddaliodd 30,000 o ferched ddwylo o amgylch y fiens allanol 14-km o hyd. Yn benderfynol na ddylid anghofio am Fenywod Greenham, sefydlodd "Greenham Women Everywhere", gan sicrhau cyllid Loteri Treftadaeth ar gyfer project sydd wedi tyfu a thyfu. Cyflwynodd Greenham gymaint o fenywod i ffeministiaeth ac i bŵer menywod yn gweithio gyda'i gilydd. Roeddwn i'n un o'r rhai adroddodd eu straeon. Roedd fy mab 13-mis-oed, Chris, a minnau'n ddau o'r criw o "36 o fenywod, 4 dyn a 3 baban" a gerddodd o Gaerdydd i Gomin Greenham ym mis Awst 1981. Roedd gennym bwrpas cyffredin, sef protestio yn erbyn penderfyniad llywodraeth Thatcher i ganiatáu lleoli taflegrau

niwclear Cruise yr UD yn RAF Comin Greenham, canolfan awyrennau yn Berkshire. Gadawodd taith y 40ain mlwyddiant, fel o'r blaen, o Neuadd y Ddinas Caerdydd a dilyn yr un llwybr. Daeth llawer o fenywod Greenham yno. Siaradodd Jane Hutt AoS ac Ann Pettit, fel y gwnaethant ym mis Awst 1981. Canodd Frankie Armstrong a Chôr Cochion Caerdydd. Adroddais fy atgofion a siaradodd Jill Evans, a fu hefyd yn cerdded y diwrnod cyntaf hwnnw, ar ran CND Cymru. Yn 1981, roeddem yn cerdded ar y ffordd ond cerdded ar balmentydd, ar fin y ffordd, trwy gaeau ac ar hyd camlesi oedden ni nawr. Wnes i mo'r 193 km i gyd, ond roedd Caerfaddon i Melksham gyda Chris yn brofiad gwyl banc hyfryd. Roedd Becca hyfryd yn darllen o'm dyddiaduron gwreiddiol bob dydd. Arweiniodd hyn at brofiad

rhyfedd ar ôl cyrraedd arhosfan ginio un dydd, pan sylwedolodd Chris bod menywod yn pwyntio ato gan sibrwd "fe oedd y babi yn goets"!

Yn 1981 prin bod neb wedi clywed am Gomin Greenham ond y tro yma roedd llawer y cwrddon ni â nhw ar hyd y ffordd yn cofio'r orymdaith yn mynd heibio. Fel ym 1981, roeddem yn gymysgedd o rai ifanc a rhai hŷn, yn canu wrth gerdded, a mwynhau cwrdd â phobl newydd a bod ag amser ar gyfer sgysiau hir.

Roedd cyrraedd y Glwyd Las ar y diwrnod olaf yn anhygoel. A ninnau wedi ymladd ar ôl cerdded 24 km, daeth torfeydd o gefnogwyr gyda ni ar draws y Comin i'r Tŵr Rheoli. Dilynodd penwythnos o hel atgofion, chwaeroliaeth a chàn. Mae Menywod Greenham yn dal i fod ym mhobman. Alla'i ddim aros am Ben-blwydd "Embrace the base" ym mis Rhagfyr 2022!



Sue Lent (chwith) a Menywod Greenham, 2021.

DATGANIAD Y GYMRU DDI-NIWCLEAR YM 1982

Coffáu – Dathlu – GWEITHREDU meddai MARY JONES.

Datganiad Clwyd 1982 oedd penllanw llwyddiannus ymgyrchu mawr mewn cymunedau ledled Cymru, gan arwain at basio penderfyniadau 'di-niwclear' gan bob un o'r wyth cyngor sir bryd hynny, sef Gorllewin, Canol a De Morgannwg, Gwynedd, Clwyd, Powys, Dyfed,

a Gwent.

Rydym yn dathlu'r orchest trwy drefnu arddangosfa deithiol, i leoliadau dethol o amgylch Cymru sy'n cynrychioli'r hen siroedd.

Mae Baner Cymru Ddi-niwclear, a

ddyluniwyd ac a wnaed gan Thalia Campbell, yn dychwelyd i Gymru o Amgueddfa Heddwch Bradford a bydd paneli gwybodaeth yn dangos y digwyddiadau hanesyddol 40 mlynedd yn ôl yn teithio gyda hi. Ond mae hyn yn fwy na thrip hel atgofion!

Pam mae hyn o bwys nawr?

Heddiw, rydym ar groesffordd dyngedfennol, lle na bu'r bygythiad i'r blaned oddi wrth arfau niwclear a'r newid yn yr

hinsawdd erioed yn fwy – a lle na bu erioed gymaint o angen gweithredu i atal trychineb. Yn fyd-eang mae arfau niwclear yn defnyddio ynni ac adnoddau enfawr mewn ymchwil, cynhyrchu, gweithredu, datgymalu a storio gwastraff yn y man, heb sôn am y drychineb



amgylcheddol a achosid pe caent eu defnyddio. Mae hyn yn ychwanegol at ddinistr amgylcheddol degawdau o fwyngloddio wraniwm, profion niwclear, a dympio gwastraff niwclear.

Mae cyngorau lleol ledled Cymru yn edrych – a da hynny – ar sut y gallant weithredu i helpu i osgoi trychineb gyda'r hinsawdd. Ddeugain mlynedd wedi eu datganiadau 'Di-niwclear' hanesyddol gallant weithredu eto, trwy gefnogi'r

ymgyrch fyd-eang i sicrhau buddsoddi arian a werir ar arfau niwclear mewn delio ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Mae rhai o gyngorau Cymru eisoes wedi llofnodi Addewid ICAN i gefnogi Cytundeb y Cenhedloedd Unedig i wahardd arfau niwclear – gadewch inni weithio gyda'n gilydd i gael pob un o'r 22 cyngor i'w gefnogi yn 2022!

Bydd gweithgareddau'r flwyddyn yn cychwyn gyda chyfarfod ar-lein CND Cymru ar 23 Chwefror a dod i ben â digwyddiad arddangosfa yn y Senedd ar 1 Rhagfyr; byddant yn cynnwys ymweliad â Steddfod Tregaron fis Awst ac arddangosfeydd yn Wrecsam, Bangor, Aberystwyth, Llandrindod, Hwlfordd, Abertawe, Merthyr Tudful, Caerdydd a Chasnewydd.

heddweithredu:

Fedrwch chi helpu?

- A oes gennych unrhyw hen ffotograffau, toriadau o'r wasg neu ddeunydd y gellid ei ddefnyddio i ddangos ymgyrchoedd yr hen siroedd 40 mlynedd yn ôl?
- A allech chi helpu i drefnu arddangosfa yn un o'r ardaloedd uchod a/neu lobio eich cyngor presennol i gefnogi Cytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear? Am wybodaeth am sut i gyfranogi, eboستيwch mary.jones17@outlook.com

ARGYFWNG YR HINSAWDD? NID NIWCLEAR YW'R ATEB

Mae pŵer niwclear yn ddrwg i'r hinsawdd!

- Ni ellir galw'r cylch niwclear yn ei gryswth yn garbon-isel, os yw (fel y mae) yn cynnwys mwyngloddio, cludiant, gwneud concrid ac adeiladu, cynhyrchu dur, datgomiynu a dinistrio cynefinoedd.
- Ar adegau o sychder, mae gorsafoedd pŵer niwclear yn defnyddio llawer iawn o ddŵr.
- Peryglir safleoedd arfordirol gorsafoedd pŵer niwclear wrth i lefelau'r môr godi, a chan ddigwyddiadau tywydd eithafol.
- Mae buddsoddi niwclear yn dargyfeirio arian oddi wrth ynni adnewyddadwy. Mae'r diwydiant yn ddiahebol am ei or-wario.
- Ni all y lobi niwclear adeiladu mewn pryd i gyflawni'r targedau lleihau carbon a bennwyd gan COP. Mae gan y diwydiant record warthus am arafwch ac oedi.
- Mae cysylltiad agos rhwng pŵer niwclear sifil a datblygiadau niwclear milwrol, ac felly y bu erioed. Gweler:

<https://www.sgr.org.uk/resources/hidden-military-implications-building-back-new-nuclear-uk?>

- Mae ynni adnewyddadwy yn rhatach ac yn cynnig digonedd o swyddi mwy diogel. Nid yw ysbeidioldeb yn problem bellach, ac nid yw llwyth sylfaenol yn rhwystr mwyach.
- Mae peryglon ymbelydredd tymor-hir yn peryglu cenedlaethau'r dyfodol am filoedd o flynyddoedd. Gellir storio gwastraff niwclear, ond ni ellir cael gwared ohono'n effeithiol.

... ac arfau niwclear hefyd!

Byddai rhyfel niwclear a'r stormydd tân a'i dilynai yn effeithio'n ddwys ar hinsawdd y byd, gan achosi 'gaeaf niwclear' hir o bosib.

- Mae arfau a phrofion niwclear yn achosi difrod tymor-hir i'r amgylchedd.
- Gall y newid yn yr hinsawdd a phrinder adnoddau cynyddol beri gwrthdaro arfog pellach, gan ffurfio cylch dieflig.
- Mae allyriadau carbon milwrol (tanwydd, ffrwydrion, adeiladu amddiffynol) yn enfawr, hyd yn oed pan nad oes rhyfel.



Yr holl luniau: Protest Côd Coch yr Hinsawdd, Bangor

Apêl Hinkley C!

Lansiodd grŵp "Achub Aber Hafren" her gyfreithiol yn erbyn penderfyniad yr MMO (Marine Management Organisation) i roi trwydded i EdF i ddympio gwaddod ger Portishead. Ond mae ffioedd cyfreithiol yn ddrud, ac felly mae arnom angen cyfraniadau! Os hoffech gyfrannu at y costau cyfreithiol, gweler:

<https://www.crowdjustice.com/case/save-the-severn-estuary/>



AILDDECHRAU'R GEMAU NIWCLEAR

Mae Bechtel a Westinghouse, er gwaethaf eu hanes, wedi bod yn lobio'r Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan, yn ôl adroddiad DYLAN MORGAN o Pobl Atal Wylfa B.

Mae'r wythnosau diwethaf wedi profi bod gwaith mawr i'w wneud o hyd i fudiadau CADNO a PAWB. Cyn diwedd yr haf, daeth y cyhoeddiad fod Americanwr, Mike Tynan, wedi cael ei benodi'n Brif Weithredwr Cwmni Egino ar safle niwclear Trawsfynydd gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn arfer bod yn bennaeth ar gwmni niwclear Westinghouse ym Mhrydain, yr union gwmni a aeth yn fethdalwyr o dan berchnogaeth Toshiba yn yr Unol Daleithiau yn 2017. Arweiniodd y methdaliad hwnnw at ddod â chonsortium NuGen ar safle Moorside, ger Sellafield i ben. Y dymuniad yno oedd adeiladu tri adweithydd AP1000 Westinghouse, ond o gofio hanes yr ymdrech i adeiladu adweithyddion AP1000 ar safle V.C Summer yn Ne Carolina, nid oedd yn syndod nad oedd neb yn barod i fentro ar fuddsoddi mewn prosiect AP1000 yn Moorside.

Mae arian yn cyfrif

Roedd presenoldeb Americanaidd hefyd mewn sesiwn arbennig o'r Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan ym Medi i drafod posibiladau ar gyfer safle'r Wylfa. Yno roedd Bechtel/Westinghouse yn brolio'r adweithydd AP1000. Yr hyn ddaeth yn amlwg fodd bynnag oedd eu hawydd am gymorth

arian cyhoeddus sylweddol gan lywodraeth Johnson. Byddai hynny'n hwyluso denu buddsoddwyr yn eu barn hwy.

Dim sôn wrth gwrs am hanes aflwyddiannus AP1000! Yr ail gwmni i ymddangos oedd Shearwater Energy, cwmni bach sy'n dweud yr hoffent godi 12 adweithydd 77MW gan gwmni Americanaidd NuScale yn yr Wylfa. Gwnaeth eu cynrychiolydd addewidion mawr y gallent gyflawni'r gwaith heb arian cyhoeddus ac y gallai'r cynllun fod yn weithredol mewn pum mlynedd. Yn anffodus i Shearwater, dim ond fersiwn 50MW adweithydd NuScale sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y rheoleiddwyr Americanaidd. Felly, gall gymryd tipyn o amser eto cyn y gwelir y gwaith asesu ar

yr adweithydd 77MW yn cael ei gwblhau.

Agenda Crosbie

Roedd llaw AS Ynys Môn, Virginia Crosbie yn amlwg yn nhrefniadau'r cyfarfod hwn, a'i bod yn dangos ffafiaeth weddol amlwg at gynllun Bechtel/Westinghouse. Bu'n brysus ers hynny yn ceisio denu llysgennad yr Unol Daleithiau yn Llundain i ymweld â safle'r Wylfa. Cymerodd PAWB y cyfle i anfon llythyr at y llysgennad, Mr Philip T. Reeker i'w atgoffa ymhlith pethau eraill bod yr Arolygywr Cynllunio oedd yn edrych ar gais cynllunio llawn Horizon ar gyfer safle'r Wylfa, wedi argymhell peidio rhoi'r Gorchymyn Cydsynio Datblygu iddynt. Dyma gynnig i'w gyfarfod pe penderfynai ddod i Fôn!



Melior Tomos

Protestwyr PAWB a CADNO yn herio 'Sefydliad Dyfodol Niwclear Newydd' Prifysgol Bangor gyda thipyn o theatr stryd eitha brawychus. Cafodd y ffilmio ei lifo'n fyw ar Gweplyfr, gweler: <https://www.facebook.com/milyr.tomos/videos/837702300250236>

YMA, ACW...



AC YM MHOBMAN

O ogledd Cymru i Lerpwl

Ar 11 Medi aeth cefnogwyr CND Cymru ac ymgyrchwyr heddwch o bob rhan o ogledd Cymru i Lerpwl i alw am ganslo Ffair Arfau Electronig AOC Ewrop (a ailfeddyddiwyd yn Ffair Arfau DDigidol). Aeth y Ffair ei hun yn ei blaen ar 12-13 Hydref, gan ddenu phrotestiadau pellach gyda nifer wedi eu restio. Roedd dros 80 o gwmnïau ar y rhestr westeion, gan gynnwys Raytheon, Elbit, Israel Aerospace Industries a MBDA, 'byd-arweinydd mewn systemau taflegrau'.

Aber yn dathlu Dydd Heddwch

Ar 21 Medi, nododd Cyngor Tref Aberystwyth Ddydd Heddwch Rhyngwladol y CU yn swyddogol am y tro cyntaf. Galwodd y Maer, Alun Williams, i gof gefnogaeth hirsefydlog y dref i ddarfogi a heddwch, gan nodi cynhadledd Cyngrhair y Cenhedloedd ym 1926, pasiant heddwch 1935, protestiadau CND yn y 1960au, gwrthwynebiad i Ryfel Irac yn 2003, derbyn pabiau gwyn coffa o 2004, a chynadleddau sefydlu'r Academi Heddwch. Siaradodd preswlydd lleol, Rose Voon, yn y digwyddiad hefyd, a chefnogwyd ym frwd gan Gôr Gobaith.

Protestiadau hinsawdd COP 26

Ar 6 Tachwedd, i gydfynd â COP26 yn Glasgow, cynhaliwyd raliau ledled Cymru, o Abertawe i Gaerdydd, Llangollen i Fangor. Cyd-gerddodd cefnogwyr CND Cymru gydag amryw o sefydliadau eraill, yn cynnwys Cod Coch i'r Ddynolryw, Cyfeillion y Ddaear, Greenpeace, Gwrthryfel Difodiant, Cymorth Cristnogol, Sefydliad y Merched a Chymuned Unite. Roedd protestwyr eraill o Gymru wedi teithio i'r Alban, gyda rhai wedi seiclo'r holl ffordd o Geredigion!

Penblwydd Hapus i Ni!

Cafodd 40ain mlwyddiant sefydlu CND Cymru fel sefydliad cenedlaethol annibynnol ei nodi gan sesiwn ar-lein gyda chyfraniadau gan Jill Evans, Rhodri Glyn Tomos, Dr John Cox, Stephen Thomas, Dr Rebecca Johnson, Jill Gough a Bruce Kent.

Ar 15 Medi anerchodd Heledd Fychan AS y Senedd i ddymuno 40fed pen-blwydd hapus i CND Cymru, ond gan ychwanegu mai dim ond pan fydd y byd wedi cael gwared o arfau niwclear anghyfreithlon ac anfoesol y gallwn ddathlu go iawn.



Sam a Paul Bannon o Lyn Ceiriog, ger Llangollen, yn protestio yn erbyn ffair arfau Lerpwl

YMA, ACW... AC YM MHOBMAN

Cynhadledd yng Nghatalwnia

Ym mis Hydref 2021, aeth Bethan Siân o CND Cymru, â thri aelod o CND Ieuentid a Myfyrwyr i Barcelona i fynychu cynhadledd benwythnos Rhwydwaith Ieuentid y Biwro Heddwch Rhyngwladol. Cyflwynodd y tim weithdy, 'Protestio a Goroesi – Ieuentid, Heddwch ac Amser Parhaus' a chymryd rhan mewn gweithdai eraill ar, er enghraifft, 'Effaith Profion Niwclear a Newid yn yr Hinsawdd ar Gymunedau Rheng-flaen'; 'Parthau Heb Arfau Niwclear – Cryfderau a Bylchau', a 'Gweithdy Heddwch Pffeministaidd'. Arweiniodd cyflwyniadau fideo, gemau a thrafodaethau at ddadl fywiog a chyfle i rwydweithio gyda chynrychiolwyr o lawer gwlad.

Na i ymasiad yn Ne Cymru

Cyhoeddwyd bod Dyfrffordd Aberdaugleddau yn Sir Benfro ac Aberddawan ill dau wedi cael eu diystyru fel safleoedd posib ar gyfer project ymasiad niwclear newydd STEP (Spherical Tokamak for Energy Production, gweler *Heddwch* 78). Mae Lloegr a'r Alban yn parhau i gystadlu yn y gynghrair ymasiad ffantasi hon.

Aber yn ymchwilio i Arctig niwclear

Ar 5 Hydref nododd y *Cambrian News* fod Dr Arwyn Edwards,

Gwobrau Coppieters 2020 a 2021

Ym Mrwsel ar 15 Hydref 2021 cafodd Cadeirydd CND Cymru, Jill Evans, a Nelly Maes, a wnaeth gymaint i greu sefydliadau heddwch yng Nghymru a Fflandrys, gydnabyddiaeth am eu gwaith caled. Mae Gwobrau Coppieters yn sefyll am heddwch, democratiaeth, amrywiaeth ddiwylliannol, a hawliau lleiafrifol. Llongyfarchiadau i'r ddwy ar eu gwobrau cwbl haeddiannol.



Jill Evans a Nelly Maes yn derbyn eu gwobrau

Darllenwyd mewn Biolog ym Mhrifysgol Aberystwyth, mewn cydweithrediad ag academyddion yn UDA, wedi cyhoeddi ymchwil newydd am effaith cynhesu byd-eang ar rew parhaol yr Arctig. Gallai cymaint â dwy ran o dair o'r rhew parhaol fod wedi dadmer erbyn diwedd y ganrif hon. Mae'r perygl o ryddhau nwyon tŷ gwydr fel methan eisoes wedi'i gofnodi'n fanwl, ond mae'r ymchwil hon hefyd yn tynnu sylw at beryglon halogion ymbelydrol fel plwtoniwm a chaesiwm, gwaddol rhaglen broffion niwclear yr Undeb

Sofietaidd 1955-1990, heb sôn am hen longau tanfor niwclear a adawyd yno. Mae llen iâ'r Ynys Las hefyd wedi'i halogi â gwastraff ymbelydrol o weithgareddau milwrol yr UD yn y 1960au.

Y BBC yn derbyn pabiau gwynion

Mae'r BBC wedi dilyn arweiniad llawer o gynghorau Cymru ac wedi caniatáu i'w cyflwynwyr eleni wisgo pabiau gwyn os dymunant. Mae pabiau gwyn yn coffáu holl ddioddefwyr rhyfel, ffrind neu elyn, milwrol neu sifil.

WOMEN FOR PEACE

Banners From Greenham Common

Charlotte Dew

ISBN 978-1-909829-18-3

Four Corners Books, 2021, 224 tt, £14.00

Mae baneri – rhai wedi'u llunio'n hyfryd, rhai eraill wedi eu cydosod ar frys – yn ganolog i stori Gwersyll Heddwch Menywod Comin Greenham, o'i sefydlu ddiwedd haf 1981 nes iddo ddod i ben yn 2000.

Hyd yn oed pan na welir cyfweiliadau yn y cyfryngau prif-ffrwd, pan na all rhai sy'n cerdded heibio glywed holl eiriau'r caneuon sy'n cael eu canu, neu pan fydd swyddogion "diogelwch" milwrol a heddlu wedi'u hyfforddi i beidio â gwrando ar ymgyrchwyr a phrotestwyr – ni ellir byth anwybyddu baneri hardd â geiriau clir arnyn nhw. Efallai yr ystyrir baneri yn gefndir i wrthdystiad; mewn gwirionedd, yn y ffurf ddisglair, glir, a hardd y câ'r rhain eu harddangos yng Nghomin Greenham a mannau eraill, â'u negeseuon a'i dyfyniadau clir, a gyda chynifer o fenywod 'cyffredin' (beth bynnag mae hynny'n ei olygu) gwyh Greenham yn sefyll o'u blaen, ni ellid byth mo'u hanghofio.

Roedd ymgyrch y menywod i atal lleoli taflegrau niwcLEAR Cruise yr UD ym Mhrydain eisoes wedi cychwyn pan ddechreuodd yr orymdaith o Gaerdydd i Greenham ym mis Awst 1981. Efallai bod Ann Pettitt, un o drefnwyr y daith gyntaf i Greenham o Gaerdydd, yn adleisio geiriau mudiadau menywod eraill y gorffennol pan soniodd am un o nodau'r daith fel "torri i mewn



i fyd caeëdig y ddadl yn y cyfryngau ar faterion amddiffyn ... defnyddio'r cyfryngau i ddeffro'r cyhoedd i'r hyn sy'n digwydd." Bwriad Charlotte Dew, yn ei chyfrol gelfydd, hyfryd, yw addysgu'r darlennydd am y dreftadaeth hon yn ei disgrifiad sensitif a'i dadansoddiad o'r casgliad gwyh o ffotograffau o faneri Greenham (a rhai cysylltiedig). I rai ohonom a oedd yno, mae'r trosolwg a'r ddealltwriaeth o'r holl gyd-destun, a'r cyfoeth o gyfweiliadau am brofiadau menywod eraill, yn cynnwys gweithredu uniongyrchol, yn ddefnyddiol iawn. Mae'n cadarnhau ein hymrwymiad a'n hatgofion. Na, doedden ni ddim yn breuddwydio! Roedd yn fraint – yn union fel y cofiwn. Mae hefyd yn darparu cyd-destun cadarnhaol i ymgyrchoedd heddiw a'r dyfodol.



Mae *Women for Peace – Banners from Greenham Common* yn ysbrydoliaeth hefyd o'r safbwynt ei bod yn gyfrol wedi ei sgrifennu gan fenyw am weithredoedd menywod. Mae'r ffotograffau'n dangos mwy o faneri nag y gwelodd y rhan fwyaf ohonom mewn un lle erioed! Mae diwyg y llyfr yn wych a felly hefyd y disgrifiadau, y cyfeiriadau a llif y naratif. Yr awdur ei hun a gyfwelodd â llawer o wneuthurwyr y baneri, gan eu holi am eu cymhelliant a'u profiadau.

Tra bod y llyfr yn ymdrin â baneri gwyh o bob rhan o Brydain, ac yng Ngwersyll Heddwch Comin Greenham, da gweld cynnwys rhai o Gymru, o'r gogledd a'r de. Mae'n amhosib enwi'r holl wneuthurwyr baneri yma. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod Thalia Campbell, a oedd yn byw bryd hynny yn Borth, Ceredigion, ynghyd â theulu a ffrindiau, yn eithriadol o dda am greu baneri ymgyrchu, ac nid yn unig i Greenham. Mae Thalia'n disgrifio sut roedden nhw wrthi beunydd yn dylunio, gwneud ac arddangos ugeiniau o faneri eithriadol, mewn cyfweiliad gyda Charlotte Dew yn 2020. Er fy mod i'n nabod Thalia, ac yn fy ystyried fy hun yn Fenyw Greenham, dysgais lawer iawn



Chwifwn ein Baneri!

o bethau newydd wrth ddarllen y llyfr hwn. Byddai'n gwneud anrheg ddelfrydol i unrhyw ffrindiau sydd gennych a oedd yn un o Fenywod Greenham – a dwi'n amau, os prynwch chi gopi y byddwch am ei gadw ... felly hwyrach gwell prynu dau!

JILL GOUGH



PLOGOFF une lutte au bout du monde PLOUGOÑ ur stourm e penn ar bed

golygyddion: J. Moalic, G. Simon, F. Le Henaff

Ffrangeg, ISBN 978-2-36833-3396 Locus Solus, 2021, 176 tt, €27.00

Sut mae'ch Ffrangeg chi? Mae'r llyfr hwn yn cofnodi un o'r protestiadau mwyaf epig yn hanes pŵer niwclear, pan heriodd pobl Plougoñ yn Llydaw yn y 1970au gwmni EDF, llywodraeth Ffrainc, yr heddlu terfysg, yr heddlu milwrol a hyd yn oed yr "paras" – ac ennill! Mae gweithredwyr o Gymru i Japan yn parhau i ddathlu'r digwyddiadau hyn. Mae'r llyfr hwn yn llawn lluniau, posteri a ffotograffiaeth hyfryd. Mae'n werth pob ewro a gellir ei archebu'n uniongyrchol gan ein cymrodry Llydaweg ysbrydoledig yn <https://www.locus-solus.fr/product-page/plogoff-une-lutte-au-bout-du-monde>

LINDA ROGERS



VIGIL


Crewyd gan Tom Edge

Yn serennu Suranne Jones

World Productions ar gyfer BBC1, Chwe phennod, Awst-Medi 2021, yn dal ar gael ar BBC i-Player

I aelodau CND Cymru sydd wedi ymlwybro i fyny i'r Alban dros y blynyddoedd i ddwyn gwarchae ar ganolfan llynges niwclear Faslane, roedd *Vigil* yn cynnwys peth daearyddiaeth gyfarwydd – ac roedd graffiti'r dilyniant agoriadol, "Scots Say No To Trident", yn cynnig neges galonogol.

A oedd y gyfres yn anhebygol ac yn wallus? Wel, ffilim gyffro, cnoi-ewinedd oedd hi, nid rhaglen ddogfen, felly rhaid rhoi rhyddid creadigol iddi. Ond roedd ei stori am ysbïwyr,



llofruddiaethau a chynllwynio yn cynnwys sawl gwirionedd ehangach a sawl ergyd. Roedd y clawstroffobia ar fwrdd *Vigil* yn adlewyrchu cyfrinachedd taglyd a greddf cau rhengoedd y sefydliad Prydeinig. Roedd ymchwilio'r heddlu i lofruddiaethau unigol yn eironig yn wyneb y llofruddio torfol a hwylusir gan daflegrau niwclear y llong. Dangoswyd bod y lluoedd arfog y tu hwnt i'r gyfraith (tra bod llywodraeth go iawn y DU yn hoffi galw ymchwiliadau i droseddau

rhyfel yn 'flinderus'). Dangoswyd personél y llynges fel rhai wedi eu dad-ddyneiddio gan ddisgyblaeth filwrol. Roedd ynysu'r llong danfor oddi wrth y byd allanol yn dangos peryglon gwallgof y math hwn o ryfela.

Ac fe dynnodd y gyfres sylw at hanes suddo llongau pysgota gan longau tanfor niwclear ym Môr Iwerddon. Roedd y darn gafaalgarn hwn o ffuglen yn cynnig digon o ddeunydd meddwl a thrafod – yn ogystal â bod yn gyffrous iawn.

COLLATERAL DAMAGE

Steve Howell


ISBN 978-0-9317071-4

Quaero Publishing, Y Trallwng 2021, 294tt, £8.99

Yn 1986 bomiodd awyrennau'r UD Libya. Mae'n flwyddyn wedi hynny, a chaiff corff gweithredwr heddwch, Tom Carver, ei ddarganfod ar draeth yn Tripoli, yn ystod cynhadledd heddwch ryngwladol. Nôl yn Llundain mae ei bartner Ayesha Khoury, Palestiniad o Libanus, yn ceisio cymorth ei ffrind Hannah a chyfreithiwr ifanc o'r enw Jed i ymholi i

farwolaeth Tom. Ceir mwyfwy o ddirgelion – a dydy pobl ddim yr hyn a ymddangosant. Mae asiantaethau'r wladwriaeth yn rhwystr i gyfiawnder. Mae'r hanes yn gredadwy, gyda chyffelybiaethau â bywyd go iawn sydd mor berthnasol heddiw ag yr oeddynt yn yr 80au. Fel y dywed Ayesha yn y llyfr: "Ble mae'r pen draw os yw gwladwriaethau'n ymddwyn fel terfysgwyr?". Y nofel gyffro wleidyddol hon yw'r drydedd gan Steve Howell, newyddiadurwr a gweithredwr sy'n byw ger y Trallwng, ac weithiodd gyda Corbyn yn

2017. I archebu, ewch i: <https://www.steve-howell.com/collateral-damage/>



Brenda Davies 1929-2021

Bu Brenda Davies, a fu farw ddiwrnod ar ôl ei phen-blwydd yn 92 fis Gorffennaf, yn byw yn Nynfant, ger Abertawe, ar hyd ei hoes. Yn briod ag Islwyn, gweinidog Ebenezer, Dynfant, roedd yn fam i ddau fab, Geraint a Teifion. Roedd Brenda'n Gymraes dawel ond penderfynol a balch, a fanteisiai ar bob cyfle i ddatgan ei safbwyntiau gwrth-niwclear cryf.

Roedd ganddi'r un angerdd am sosialaeth, Cristnogaeth a heddychiaeth. Pan gafodd ei restio ym Mreudeth ar weithred 'Caseg Eira', defnyddiodd y cyfle i egluro'n fanwl i'r heddwas ifanc oedd yn ei chadw yn y ddalfa

yn union pam roedd hi yno ac yn barod i wneud safiad – ac fe wrandawodd!

Ar un wyliadwriaeth nos yn Greenham, bu cyrch ar wersyll y brif glwyd gan heddlu a beiliaid a restiodd y menywod a dinistrio'u heiddo. Yn ddiffwdan, helpodd Brenda i gasglu cymaint ag y medrai i'w arbed rhag y loriau dympio, gan anwybyddu'r anhrefn o'i chwmpas.

Yn aelod o CND ac CND Cymru ers ei sefydlu, yn ogystal â chefnogi CND Abertawe ac CND Cristnogol, credai Brenda ei bod yn bwysig gwisgo'i bathodyn CND bob amser fel y gwyddai pawb dros beth yn union y safai. Roedd ganddi ddiddordeb bywiog



mewn gwleidyddiaeth hyd at y diwedd, ac roedd bob amser yn optimistaidd: ar ôl sgwrs gyda Brenda, deawn oddi yno yn teimlo'n gryfach ac yn fwy gobeithiol am y dyfodol.

VEE WOOD

ADOLYGIAD

THE WELSH WAY

Essays on Neoliberalism and Devolution

Golygwyd gan D. Evans, K. Smith a H. Williams

Rhagair gan Michael Sheen

ISBN 978-1-914-595028

Parthian Press 2021, 406tt, £10.00,

Mae'r casgliad hwn o 24 o draethodau yn ymosodiad sosialaidd ar gyflwr y Gymru ddatganoledig gyfoes a methiant y dychymyg – gyda phleidiau gwleidyddol, honedig flaengar, yn gwerthu allan i bolisiau marchnad-ganolog eithafol cyfalafiaeth neo-ryddfrydol.

Ymdrinir ag ystod eang o bynciau, fel ffeministiaeth, addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, carchardai, plismona, ffermio, iaith, diwylliant, hunaniaeth a chynaliadwyedd – a mwy.

Mae'r traethawd *Atomic Wales: Embracing Nuclear Colonialism* gan Robat Idris yn edrych yn ôl at ddatganiad y Gymru Ddi-niwclear ym 1982 a'r gwrthwynebiad cryf yng Nghymru i bŵer niwclear ac arfau niwclear ar y pryd. Sut y diflannodd yr egni hwnnw o blith ein gwleidyddion yn y blynyddoedd wedi hynny? Mae Robat Idris yn beio polisiau gwenwynig economeg neo-ryddfrydol. Mae'n cystwyo

llawer o wleidyddion Llafur a Phlaid Cymru, ar bob lefel, a hudwyd gan y lobi niwclear. Mae hyn yn anghydnaws â Chymru sosialaidd, neu yn wir, Cymru annibynnol. Sut y gall unrhyw Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ystyrlon anwybyddu 10,000 o flynyddoedd o wastraff niwclear peryglus? Mae'r cewri trawswladol yn sgimio'r elw tra bod cyhoedd a chymunedau Cymru'n ysgwyddo'r costau, y rhwymedigaethau, y risg a'r effeithiau cymdeithasol a diwylliannol. Dyna'r broses y mae Robat Idris yn ei disgrifio fel math o wladychu niwclear.

PHILIP STEELE

CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgychu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.

gwefan: www.cndcymru.org

e-bost: heddwch@cndcymru.org

trydar: @cndcymru

instagram: @cndcymru

gweplyfr: <https://www.facebook.com/cndcymru/>



CYSYLLTIADAU:

Cadeirydd: *Jill Evans* [Rhondda]

jillrhondda@yahoo.co.uk

07803 902 401

Ysgrifennydd Cenedlaethol:

Bethan Siân [Aberystwyth]

bsj11@outlook.com

07933 791207

Trysorydd ac Aelodaeth:

Michael Freeman

michael.freeman9@btinternet.com

CND Cymru, 9 Rhiw Briallu, Llanbadarn

Fawr, Aberystwyth SY23 3SE

John Cox [Abersychan]

drjohncox121@gmail.com

01495 773495

Brian Jones [Pontardawe]

brian.jones@phonecoop.coop

01792 830330

Duncan Rees [Glannau Dyfrdwy]

Duncan.rees01@gmail.com

07534 975461

Philip Steele [Ynys Môn]

phil_steele@btinternet.com

01248 490715

HEDDWCH

Heddwch yw cylchgrawn yr Ymgych Ddiarfog Niwclear yng Nghymru, CND Cymru. Nid yw'r cynnwys o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisiau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau, cyfraniadau neu ddyddiadau ar gyfer digwyddiadau at y golygydd.

Golygydd: Philip Steele

phil_steele@btinternet.com 01248 490715

Cyfieithydd: Siân Edwards

siandefynnog@hotmail.co.uk

Cynhyrchu a phostio: Redkite Print

jonplumpton@gmail.com

Bydd rhifyn nesaf **HEDDWCH** yn ymddangos ym Mis Ebrill 2022.

PAPUR NEU DDIGIDOL?

Danysgrifwyr: ydych chi am ddefnyddio llai o bapur? Cofiwch y gellwch dderbyn *Heddwch* ar ffurf electronig os yw'n well gennych, dim ond i chi hysbysu michael.freeman9@btinternet.com o'ch cyfeiriad ebost cyfredol.

DIM
GWYRDDGALCHU
NIWCLEAR

COP26

NO TO NUCLEAR
GREENWASH

YMUNWCH Â CND CYMRU NAWR!

<https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/aelodaeth>